YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. AWST, 1952 RHIF 8.

Nodiadau'r Golygydd

"UNIONGREDEDD"—CLORIAU STIFF.

YMAE digrifwch a doethineb wedi cysgu yn yr un gwely lawer tro ond syndod mawr oedd eu gweled yn cyd-orffwys rhwng dail catalog llyfrau'r enwad. Gwelais bethau digri iawn cyn hyn mewn catalog llyfrau, megis y cyhoeddiad hwnnw, "*The Life of Kant, bound in linen*", ond er cystal hwnnw ni welais well erioed na'r un yr wyf am sôn amdano, " ' *Orthodoxy* ' : *Stiff Covers, 1s.*" Pwy allai ddywedyd yn amgenach ?

Y mae'r digrifwch yn amlwg ac wedi aros eiliad fe welir y doethineb dwfn a luniwyd trwy hap. Pe bawn wedi chwilio geiriadur gorau'r byd am ystyr y gair ' Uniongrededdd,' ni chawn well dehongliad na hwn—*cloriau stiff* !

Gwaith pryderus yw cyhoeddi llyfr ar unrhyw amser, ond meddylier am awdur sy'n cyhoeddi ei lyfr cyntaf. Y mae yn ofni'r draul a rhag ofn y disgyn y golled arno ef, y mae yn awgrymu i'r argraffwyr ei rwymo yn y ffordd rataf—cloriau papur llipa. Yna os digwydd, drwy ryw hap, i'r llyfr bach cyntaf werthu'n dda y mae'r awdur ofnus, gynt, yn dod yn hyderus a sicr o'i farn. Oni dderbyniwyd ei syniadau ? Oni chydsyniodd y miloedd â'i haeriadau ? A chyn aros i oeri, megis, daw'r ail lyfr o'r wasg. Yn iach bellach i wyleidd-dra'r clawr llipa ac wele farn bendant, "*Uniongrededdd, cloriau stiff*".

Gwaith anodd i mi yw deall pethau haniaethol (*abstract*), hynny yw, syniadau noeth heb wisg na lliw na llun iddynt. Y mae pawb yr un peth i raddau, oblegid pwy fedrai feddwl am *garedigrwydd* heb ddychmygu'r llaw sy'n rhoi cnawd am y syniad. A thrwy'r deigryn gloyw y mae canfod *cydymdeimlad* ; heb y deigryn nid yw ond gair a'r deigryn yw ei gnawd a'i wisg weledig. Y mae gwŷr yr Algebra yn gallu meddwl yn nhermau *x* a *y* ond gwyddor ddieithr i mi yw honno. Am hynny byddaf yn cydymdeimlo'n fawr â'r hen bobl a oedd yn mynnu gweld drygioni fel person gan roi'r enw Diafol iddo a chyrn ar ei ben. Gair yw *drygioni*, ond pan fo dyn yn teimlo ergyd

y corn mae'r syniad yn gwisgo rhywbeth sylweddol amdano. Ond i ddod yn ôl at yr hyn yr oeddwn yn anelu ato, dyma chwi'r gair Uniongrededdd yr un fath yn hollol a gofyn am ryw fath o wisg cyn ei ddeall. Y wisg a'r wedd a welaf i amdano bob amser yw delw dyn syber, sarrug mewn dillad du, coler caled gwyn a het galed ddu am ei ben. Ar brydiau y mae'n gwisgo sbats a phin-streip a'r cyfan wedi ei galfineiddio'n galed o'i gwmpas. Y mae naws y rhew yn ei ddilyn ba le bynnag yr â, a chyda'i gred mewn trefn gadarn y mae'n gwrthsefyll pob cynnydd a newid. Dyna fe i'r dim, *Uniongrededdd, cloriau stiff.*

Melltith y Clawr Caled.

Y mae'r clawr caled wedi bod yn fwrn a melltith ar fyd erioed a phob oes wedi mynnu ei roi am ryw syniad neu gilydd. Y mae'n ddiau fod diben ac ystyr i Gredo Nicea yn ei dydd ond y felltith oedd rhoi clawr caled am y gwaith a gwneud iddo barhau am byth. Yn ddigon gwylaidd mentraf ddweud fod yr un peth yn wir am y Beibl. Ysgrifau dynion duwiol a da ydyw, a thra pharhaent felly yr oedd Gair Duw ar gynnydd, ond rhyw ddydd fe benderfynodd rhywrai i osod cloriau caled am y cyfan—y clawr cyntaf yn cyhoeddi dechrau Gair Duw a'r clawr olaf yn cyhoeddi diwedd Gair Duw. Onid yw Duw wedi llefaru mewn llawer dull a llawer modd ar ôl gair olaf y llyfr Datguddiad ? Na, meddai Uniongrededdd, dyma'r diwedd, ac yn ddiseremoni fe gloir y cyfan tu fewn i gloriau caled a chlipiau pres.

Yn ei ddydd fe ymosododd Iesu ar wŷr y cloriau caled. Fe gofiwch amdanynt, y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, y gwŷr a gadwai gwstwm ac a ddiogelai ddeddf a defod. "Clywsoch ddywedyd", meddai, "eithr yr ydwyf fi'n . . .", ie, chwiliwch yr adnod ond gallwch ei chwblhau fel hyn os mynnwch, "Eithr yr wyf fi am rwygo ymaith y cloriau caled a rhoi i chwi eiriau a feithrin fywyd helaethach a gwell". Dyna yn hollol beth a wnaeth a dyna beth a wneir gan ei ganlynwyr ac etifeddion ei ysbryd. Erys y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion o hyd ac ymladdant mewn Tŷ Cwrdd a Llan rhag cyflwyno dim newydd na neges helaethach i'r bobl. Y mae eu crefydd yn derfynol a chyfan, ni phlyg, ni egyr, ni syfl o'r fan oblegid fe wisgodd amdani Uniongrededdd y cloriau stiff.

Y Pamffled.

Ac yn awr, i mi gael personoli syniad am y tro olaf, dyna paham yr wyf yn hoffi meddwl am Undodiaeth fel pamffled, chwi wyddoch, y papurau bychan hynny ar faterion diddorol a chyfoes a ddaw i'n dwylo o bryd i'w gilydd. Ynglŷn a phob mudiad, crefyddol neu wleidyddol, y pamffled sy'n gwneud y gwaith mentrus bob amser. Pethau bach dinod ydynt, ceiniog yr un, ond yn llawn o syniadau a

delfrydau newydd sbon. Fe'u dosberthir yn rhad ac fe'u rhoir o law i law a pha le bynnag yr ânt y maent yn llunio llwybr i'r meddwl agored a'r ysbryd eang. Parhaed Undodiaeth yn bamffled a gwared ni rhag rhoi *cloriau stiff* amdano.

Gellid cymwyso'r ddameg fechan hon i ddisgrifio llawer mudiad yn ein dydd, ond heddiw terfynaf gyda chyfeiriad at un yn unig. Beth am Gymru, a yw hithau yn mynnu marw tu fewn i gloriau caled ? Yn ddiweddar, daeth bwndel helaeth o hen faledi i'm llaw, y rhan fwyaf yn argraffedig ac ychydig ohonynt mewn llawysgrif. Ni ddaethant o lyfrgell gramadegydd nac o gell rhyw ysgolor mawr, eithr fe'u cafwyd o hen flwch yn llofft y gegin fach ac eiddo merch i fferm a'r forwyn oeddynt dros gan mlynedd yn ôl. Erbyn heddiw, y mae ysgolheictod ein llenorion wedi anghofio darllenwyr o'r math yma bron yn llwyr. Ceir cyfrolau o feirniadaeth astrus a llyfrau trwchus ar gystrawen Hen Gymraeg, ond y mae'r wasg bron a bod yn hesb o fanion diddorol. Fe ddysgodd ein hadolygwyr sut y mae beirniadu iaith, rhwymiad a fformat llyfr ac ni cheir Cysodydd bellach i gymgysgu dau fath o deip ar ei grogi. Y canlyniad yw nad oes chwarter cymaint o bobl yn darllen Cymraeg a dim ond y ganfed ran o'r rheini yn barod i ysgrifennu llith i gyhoeddiad fel Yr Ymofynnydd.

Gwn fod achosion eraill yn milwrio yn erbyn lledaeniad llenyddiaeth Gymraeg heddiw, ac yn eu plith y mae pris papur a phris rhwymo. Eithr gellid edrych ar yr argyfwng yma fel cyfle i ddiosg rhai o'r cloriau caled a chynnig llif o bamffledi rhad ar gyfer y gwŷr sy'n prysur golli'r arfer o ddarllen ein iaith. Oni wneir, fe godwn do a fydd yn llunio'u diwylliant ar ddelw'r Comic American-aidd a phydredd gwaethaf y papur dydd Sul. Erbyn hynny, ni fydd nemor gysur o wybod fod llenyddiaeth barchus Cymru yn gwbl ddiogel rhwng cloriau stiff ar silffoedd rhyw ychydig o weinidogion ac athrawon.

Ffwndamentaliaeth

Gan y Parchedig Iorwerth Jones, B.A., B.D., Ystalyfera.
(Golygydd *Y Dysgedydd* a'r *Crynhoad*).

Ymddangosodd yr erthygl ddiddorol yma yn 'Y Faner' ac fe'i cyhoeddir drwy ganiatâd caredig y Golygydd a'r Awdur.

Adwaenwn hen ddiacon annwyl a arferai ddatgan mewn seiad fod adnod o Lyfr Genesis gystal yn ei olwg ef ag adnod o Efengyl Matthew : nid oedd yn cytuno â'r gweinidogion hynny a ddywedai nad oedd pob adran o'r Ysgrythur mor werthfawr â'i gilydd. Y mae ei dylwyth gyda ni o hyd, ac yn ystod y blynyddoedd

diwethaf aethant ar gynnydd unwaith eto yng Nghymru. Fe'm beirniadwyd i ar dudalennau'r papur hwn rai wythnosau'n ôl oherwydd imi grybwyll, a minnau'n weinidog yr Efengyl, nad oeddwn yn credu yn anffaeledigrwydd y Beibl.

Gellid tybio y buasai'r ymadrodd "gweinidog yr Efengyl" yn ddigon i arwyddo ein hawdurdod, sef Efengyl Iesu Grist yn hytrach na holl ddysgeidiaeth gymysgryw yr Ysgrythurau. Pregethu Crist yw ein gwaith ni, ac egluro'r Beibl i'r graddau y bo ei gynnwys yn taflu goleuni ar gefndir ac ar genhadaeth ein Harglwydd.

Bu ffwndamentaliaeth yn aml yn fwy o rwystr nag o gymorth i achos yr Iesu. Rhag i neb fy nghamddeall golygaf wrth ffwndamentaliaeth y gred fod yr holl Feibl o ddwyfol ysbrydoliaeth a bod pob gair ynddo yn anffaeledig. Gyda'r bwriadau gorau, o bosibl, bu cefnogwyr y gred hygoelus hon yn gwanhau'r Eglwys drwy hwyluso ymosodiadau ei gelynion arni. Gorchwyl hawdd oedd gan bropagandwyr y "Rationalist Press" i wneud cyff gwawd o'r "llyfr anffaeledig" drwy arddangos moesoldeb isel ac anghysonderau hanesyddol cymaint ohono. A bu'r propaganda gwrth-Feiblaidd hwn yn gyfrwng i sigo ffydd llawer mwy o ddynion ieuainc nag a enillwyd i'r Eglwys gan bropaganda difeddwl cynifer o bleidwyr y Beibl.

Yr Hen Oruchwyliaeth.

O gymryd y Beibl fel cyfangorff—gan gynnwys holl lyfrau'r Hen Destament—yn rheol buchedd, gellir cyfreithloni pob math o bechodau ffiaidd—erchyllterau creulonaf rhyfel, aml-wreiciaeth, caethwasiaeth, llosgi "gwrachod", etc. Ceir llawer llyfr yn yr H.D. y mae'n anodd dros ben i weinidog yr Efengyl bregethu nemor dim arnynt—Barnwyr, Esther, Nahum, a sawl un arall. Nid cymryd ambell adnod fel peg i hongian pregeth arno a olygaf, eithr rhoi sylw dyladwy i'r cysylltiadau a chyhoeddi cenadwri'r llyfrau eu hunain fel datguddiad o feddwl Duw. O'r braidd y canfyddwn Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist ar waith yn yr hanes. Haws o dipyn yw canfod Ei weithgarwch ym mywydau llu o gymeriadau gwych nad yw'r Beibl yn sôn amdanynt, fel Akhnaton a Gotama yn y cyfnod cyn Crist, a Schweitzer a Kagawa yn ein dyddiau ni.

Nid rhyfedd i'r cyn-Ddeon Inge gwyno ger bron y "Modern Churchmen's Union" fod llawer o'r llithiau y mae'n rhaid i glerigwyr yr Eglwys Anglicanaidd eu darllen o'r H.D. yn "ex-cruciating" ; byddai eu galw'n "sub-Christian" yn ddweud rhy ddof. Fe hoffai'n fawr pe caniateid darllen detholion o lyfrau defosiwn Cristionogol yn lle llawer o'r llithiau hyn. Trwy drugaredd nid ydym ni weinidogion yr Eglwysi Rhyddion yn gorfod cyd-ymffurfio â threfn haearnaidd darlleniadau'r Eglwysi Esgobol.

Rhaid cyfaddef, er hynny, mai plant y Diwygiad Protestannaidd, yn eu sêl dros y Beibl fel "Gair Duw", a arweiniwyd i'r argyhoeddiad fod ysbrydoliaeth yr H.D. yn gydradd â'r eiddo'r T.N. Ond rhaid egluro hefyd nad oedd y diwygwyr eu hunain yn derbyn y syniad twyllodrus hwn, a gwyddys fel yr oedd Luther yn enwedig yn gweld amrywiaeth dirfawr yng ngwerth Cristionogol gwahanol lyfrau'r Beibl.

Yn ôl y dyfynnu tra rhydd a wnâi'r Apostol Paul yntau o'r H.D. y mae'n amlwg nad oedd ysbrydoliaeth lythrennol yn mennu llawer arno ef, er cymaint oedd dylanwad Iddewaeth arno. Ac yn sicr nid oedd Iesu Grist yn credu yn anffaeledigrwydd yr H.D. "Clywsoch ddywedyd gan y rhai gynt", meddai'r Gwaredwr yn feirniadol am rai o orchmynion yr H.D., "eithr yr ydwyf fi'n dywedyd i chwi", a cheir ganddo ef ddysgeidiaeth amgenach na "llygad am lygad" a "chasâ dy elyn" yr hen oruchwyliaeth. Nid yw pob dysgeidiaeth Feiblaidd yn awdurdodol ; y mae gennym awdurdod Crist ei hun dros gyhoeddi hynny.

Brychau Beiblaidd.

Y mae hyn hefyd yn wir—fel y gwelodd Luther—ynglŷn â'r T.N. Cymerer, er enghraifft, ddatganiadau Paul yn I Corinthiaid ar safle'r ferch. Pwy sy'n gallu cydolygu heddiw â gosodiadau'r hen lanc apostolaidd ? '.Ni chrewyd y gŵr er mwyn y wraig, ond y wraig er mwyn y gŵr". "Tawed y gwragedd yn yr eglwysi". "Pob gwraig yn gweddïo neu yn proffwydo yn bennoeth sydd yn cywilyddio ei phen".

Gŵyr y cyfarwydd nad traethiadau dwl mewn gwagle yw'r rhain, a bod cefndir hanesyddol iddynt yn y cyfnod hwnnw. Ar yr un pryd y mae'n rhaid cydnabod mai ymbalfalu yr oedd Paul wrth sgrifennu ar bwnc na wyddai fawr amdano. A chwarae teg iddo ef, y mae'n addef hynny'n agored. "Nid oes gennyf orchymyn yr Arglwydd, ond barn yr ydwyf yn ei roi". Nid fel hyn y sgrifenasai dyn a gredai ei fod yn ysbrydoledig. Ond trwy ofergoeledd y dynion hynny a briodolai i lythyrau Paul anffaeledigrwydd nas hawlid gan yr apostol ei hun gwelsom yn ein dyddiau ni ffwlbri fel cau allan o eglwysi ferched bach diniwed nad oedd hetiau'n digwydd bod ar eu pennau.

Rhyw ganlyniadau afresymol o'r fath sydd i'w disgwyl pan gymerir pob adnod fel awdurdod diamod : safbwynt afresymol yw safbwynt y ffwndamentalwyr. I ddychwelyd at yr H.D., meddylier am yr anghysonderau hanesyddol y maent yn gorfod eu diystyru. Yn ôl II Samuel 24, 1, yr Arglwydd a anogodd Dafydd i gyfrif y genedl, ond yn ôl I Cronicl 21, 1, Satan a'i hanogodd. Yn II Brenhinoedd 10, 30, cymeradwyir gweithred Jehu yn difa disgynyddion Ahab ac ystyrir hi fel arwydd o sêl yn achos yr Arglwydd,

ond yn Hosea 1, 4, collfarna'r proffwyd y weithred fel pechod yn erbyn Duw. Dylai ffeithiau fel hyn fod yn ddigon ar eu pennau eu hunain i danseilio Beibl-addoliaeth.

Alltudio Rheswm?

Y mae'n rhyfedd fel y pery'r cyfeiliornad mewn cylchoedd "efengylaidd". Onid yw'n hen bryd iddynt benderfynu prun ai'r Efengyl ynteu'r Beibl yw eu hawdurdod?

Dywedir yn fynych gan Gristionogion efengylaidd a diwinyddion Beiblaidd nad oes gennym hawl i eistedd mewn barn ar yr Ysgrythur. A dylem gytuno bod y Beibl yn barnu llawer mwy arnom ni nag y gallwn ni farnu arno ef. Ond nid oes raid inni lyncu pob dim a geir yn y Beibl fel petai'n berffaith o'r dechrau i'r diwedd. Nid yw undod y Beibl mor gyflawn ag y bydd rhai diwinyddion cyfoes yn dueddol i bwysleisio. Doder Eseia 53 ac Esther 8 a 9, er enghraifft, ochr-yn-ochr. Nid anhawster a grewyd gan ddiwinyddion rhyddfrydol yw amherffeithrwydd undod y Beibl.

Os oes gwerth amrywiol mewn gwahanol rannau o'r Beibl y mae'n ofynnol inni oll wynebu'r ffaith nad yw'r llyfr fel cyfangorff yn awdurdodol. Am Air Duw yn y Beibl gallwn ddweud, "y mae gennym y trysor hwn mewn llestri pridd". Oferedd yw ceisio twyllo'r byd fod baw'r Beibl mor werthfawr â'i emau. Y trueni yw bod parhad ffwndamentaliaeth—a'i gynnydd mewn rhai cylchoedd—yn ein gorfodi i dynnu sylw at ddiffygion y Beibl.

(I'w chloi).

Ystori 'Caban F'ewyrth Twm'

Gan Miss K. V. Jones.

Fe fydd o ddiddordeb i ddarllenwyr efallai i wybod fod gweddw Gwilym Marles wedi cyflwyno cyfaddasiad dramatig o 'Gaban F'ewyrth Twm' yn Llandysul ar nos Nadolig 1879.

Ychydig o ferched sydd wedi ennill poblogrwydd byd eang drwy ysgrifennu un llyfr fel y gwnaeth Mrs. Beecher Stowe. Merch ydoedd i'r pregethwr enwog Dr. Lyman Beecher ac fe'i ganed yn Lichfield, Connecticut ar y 14 o Fehefin, 1814, y seithfed blentyn o deulu o dri ar ddeg. Aeth y brodyr i gyd i'r weinidogaeth ac y mae mwy o lenorion disglair wedi hannu o'r teulu hwn nac o un teulu arall yn yr America. Lle byddai gan weinidog deulu mawr a chyflog fach, tlodi oedd yn ben a dyna hanes y wraig yma. Ond gwell na chyfoeth oedd gwaddol tlodi i'r ferch ifanc dalentog, lygatgraff ac uchelgeisiol. Yn y caledi y datblygwyd y gorau yn ei

henaid ac yr oedd ôl llaw anghenion mawr bore oes, ac ôl llaw mam dda yn drwm ar ei chymeriad hoffus yn ddiweddarach.

Fe'i ganwyd i aelwyd ac arni naws llenyddol a'r siarad i gyd am lyfrau, awduron, cymeriadau a chrefydd a daeth i garu llyfrau yn angherddol. Yr oedd wrth ei bodd yn yr ysgol hefyd a phob amser ar y blaen yn ei dosbarth. Bu'n chwilota'n gyson yn llyfrgell ei thad ac fe'i cefnogwyd i ysgrifennu a chyn hir clywn amdani yn ennill gwobr am ysgrifennu. Mawr oedd balchter y tad oherwydd ni thybiodd erioed fod ganddo ferch mor ddawnus !

Yn 1824 agorodd Catherine ei chwaer ysgol ac fe aeth Harriet ati fel disgybl i ddechrau ac yn ddiweddarach fel athrawes lwyddianus. Ymbriododdd â'r Parch. Calvin Stowe, gŵr ifanc talïaidd braidd yn wyllt ei dymer ond yn fawr ei barch tuag at alluoedd ei wraig fel awdures.

Gallai Harriet ysgrifennu yn rhywle, ar fwrdd y gegin wrth hwylio'r ginio neu yn ystafell y plant ynghanol y miri. Ychwanegodd at incwm y teulu ac at ei safle lenyddol yn y dull yma. Pan apwyntiwyd ei gŵr yn Athro mewn coleg yn Maine fe ysgrifennodd y geiriau canlynol ati, "There is no woman like you in this wide world, who else had so much talent with so little self conceit, so little affectation, so much literature and so little nonsense". Gwraig dda a dewr oedd Harriet heb os, a wynebodd faich mawr codi chwech o blant yng nghwmni gŵr go anwastad ei ffyrdd heb golli ffydd. Bu bron a thorri ei chalon o golli un o'i phlant bach o'r frech wen ond er cymaint gofidiau'r teulu yr oedd ei golwg o hyd ar eraill a oedd mewn cyflwr gwaeth. Wrth fyw yn Ohio yr oedd yn symud yng nghanol trueni ac erchylltra caethwasanaeth ac fe welir nifer o gymeriadau'r fro yn byw unwaith eto yn ei gwaith mawr.

Fe'i cyffrowyd yn rhyfedd gan lythyr a ddaeth oddi wrth ei chwaer un dydd. Meddai honno, "If I could use a pen as you can, I would write something to make the whole nation feel what an accursed thing slavery is", a chyn hir wedyn daeth cais oddi wrth ei chyhoeddwyr am y stori orau a fedrai ysgrifennu ar gaethwasanaeth. Wedi darllen y llythyr hwnnw ymdynghedodd gan ddywedyd, "I *will* write something—I *will write* if I will". Gafaelodd y gwaith ynddi'n llwyr ac fe ysgrifennodd hanes marwolaeth "F'ewyrth Twm" ac yr oedd ei dau fachgen bach deg a deuddeg oed yn wylo'n hidl wrth wrando arni yn ei ddarllen iddynt. Hwn oedd gwreiddyn *Caban F'ewyrth Twm*, llyfr a wnaeth gymaint ac unpeth i ddiddymu ' Deddf y Caethwas ar Ffo ' a chodi barn gyhoeddus gref yn y wlad yn erbyn Caethwasanaeth. Ymddangosodd y llyfr yn rhannau yn y "New Era of Washington" a derbyniodd yr awdures dâl o drigain punt amdano. Cafodd dderbyniad brwdfrydig drwy'r wlad a chyn pen pedwar mis yr oedd y cyhoeddwyr yn talu hawlfraint o ddwy fil o bunnoedd iddi, ac o fod yn dlawd

daeth yn gyfoethog ar amrantiad.

Ysgrifennwyd y stori er cynorthwyo cenedl a oedd dan draed, ond daeth a gwobr iddi hi ei hunan na ddisgwyliodd amdani. Fe ddywedodd unwaith, "I, the author o Uncle Tom's Cabin? No never! The Lord Himself wrote it, and I was but an instrument in his hand. To him alone should be given the praise". Yr oedd yn awdurdodau gorau yn dal fod miliwn a hanner o gopïau o'r llyfr wedi eu gwerthu yn Lloegr erbyn 1878; fe'i cyfaddaswyd yn ddrama a daeth yn un o storïau mawr y byd. Daeth hi a'i brawd a'i gŵr yn groes i Loegr yn 1853 a derbyniodd groeso anrhydeddus. Ysgrifennodd lyfrau eraill ond y nesaf mewn poblogrwydd at Gaban *F'ewyrth Twm* oedd *The Minister's Wooing*. Wedi oes ddiwyd a llafur caled ar ran y gwan a'r gwael ei fyd bu farw ar y cyntaf o Orffennaf, 1896.

Da i ni yw cofio ei bod o dras Cymreig a bod ei hen-hen famgu yn enedigol o Landdewi Brefi yng Ngheredigion. Mewn Eisteddfod yn America un tro, mynegodd ei brawd, y Parch. Henry Ward Beecher ei fod yn cofio ei hen famgu yn siarad Cymraeg pur. Ymfalchiai ef a'i chwiorydd yn aml yn eu cysylltiadau Cymreig.

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe

YMLINELLIAD O DDATBLYGIAD EIN CANIADAETH GYNULLEIDFAOL.

Salmau'r Undodiaid.

I.

Gwaith Iolo Morgannwg.

Ni fuasai'r amlinelliad lleiaf o dyfiant y sallwyr Camreig yn gyflawn, heb fod ynddo le, ar gyfer salmau cân Edward Williams, o Dreffleming, nid yn unig er mwyn eu gwerth hanfodol eu hunain; ond hefyd oherwydd y trawsffurfiad a geir ynddynt, o'r salmau mydryddol, i'r hymnau newydd a dyfodiad y mesurau neilltuol. I'r perwyl hwn, dylwn sylwi hefyd ar safbwynt crefyddol yr awdur, ac ar gefndir diwylliannol, a cherddorol, ei oes bwysig dros gydiad y ddwy ganrif ddiweddaf.

Yr oedd capel Gellionnen yn newydd am yr ail waith, pan sylfaenwyd y Gymdeithas Ddwyfundodaidd yn 1802, ar yr 8ed o Hydref, mewn cyfarfod ger Castellnedd. Rhoddwn sylw iddi, oherwydd bod Iolo'n un o'r cyfeistedd o chwech (y lleill oedd y

parchedigion Josiah Rees, Gellionnen ; Thomas Morgan, Blaengwrach ; Thomas Davies, Coed y Cymmer a David Davies, Castellnedd, a'r gŵr da, Mr. John Rowlands. Mr. Richard Aubrey, Abertawy oedd y Trysorydd).

Amcan y mudiad oedd gwrthsefyll anghrediniaeth drwy annog dynion i ddeall yr ysgrythurau, a gweld y datguddiad dwyfol, yn y dyn Crist Iesu, ac i'r pwrpas hwn, i argraffu llyfrau a chyfieithiadau pwysig, i'w gwerthu a'u rhoi ar fenthyg. Amcanai'r gyfeillach gwrdd yn flynyddol, a gwelwn wrth y daflen gyntaf, mai yng Nghoed y Cymmer, yr oedd y cyfarfod agoriadol i fod, ar y 23 o Fehefin, 1803, a'r Parch. Josiah Rees, hen ŵr mwyach, i bregethu.

Tybed a allwn ddychmygu'r oedfa hon, ar ddiwedd cyfnod, ar drothwy un newydd, ar hen aelwyd ymneilltuol bwysig, o fewn sŵn peiriannau, ac o dan belydr ffwrneisiau haearn, y Merthyr newydd ?

Dylasem sylwi ar ddatganiad y rhaglen uchod, gan mai Iolo'i hun (yn fwy na thebyg), a'i hysgrifennodd.

Wele'r arwyddeiriau "I ni nid oes ond un Duw" (Paul), "Fy Nhad I, a'ch Tad chwithau, Fy Nuw I, a'ch Duw chwithau" (Iesu), a'r diweddiad "Bydded i ni ymddwyn ym mhob peth, fal y gwedd i *Ddysgyblion Tywysog Heddwch.* Duw'r Cariad a'r Tangnefedd, ni chydfydd ag un gair ond gair o gariad, ac un meddwl, ond meddwl hynaws, ag un ymddwyn, ond ymddwyn heddgar, ag un athrawiaeth, ond yr un a fo'n dysgu *Gwirionedd*".

O ddarllen hyn, oni ddeallwn yn well, linellau dechreuol y salm gyntaf i gyd, gan Iolo Morgannwg ?

Y cyfiawn doeth gwynfydig yw
Mae'n dilyn Duw'n ei ddeddfau,
Gwar yw ei bwyll mae'n heddgar iawn
Yn enaid llawn rhinweddau.

Daeth ei gyfrol gyntaf allan yn 1812, â 204 o salmau ynddi, Amcanodd esbonio yn yr ail un paham y rhoddodd yr enw salmau arnynt, gan eu bod yn lluosocach na'r salmau ysgrythurol ; dywed hefyd, "Amcenais gadw mor agos ag y medrai fy neall gwan i, at feddwl y Brenin Dafydd yn rhagddarlun i mi".

Yr oedd yr emyn Cymraeg yn ei lawn dwf erbyn hyn, a Iolo'n benthyca'r mesurau newydd, ond yn cadw ar y cyfan, at yr hen salm fesurau Cymreig, y Mesur Hir (8.8) a'r Byr Cyffredin (6.7.8.7) a'r Mesur Salm (8.7). Cawn hefyd rai salmau ganddo ar y salm fesurau Sèisnig, y Mesur Byr (6.6.8.6) a'r Mesur Cyffredin (8.6). Ond nid oes unrhyw gyfeiriad yn ei lyfr, nac at alawon nac at fesurau. Y rheswm yw mai dim ond gyda thyfiant y canu cynulleidfaol, a dysgu cerddoriaeth i'r lleygwyr, y daeth y dull o osod mesurau wrth hymnau. O'r blaen, mater i'r côr feistr yn unig oedd dyfalu am fiwsig i siwtio'r emyn ac ni chafwyd na mesurau nac enwau tonau yng nghasgliad Josiah Rees ychwaith. Yn yr ail

gyfrol o Salmau Iolo, a ddaeth allan yn 1834, o dan olygiaeth ei fab Taliesin, fe gawn y mesur wrth bob salm, megis M.H., M.B., etc. a M.N. (mesur neilltuol) (gwelwn hefyd rai rhifau megis 98D, 7.6, 8.7D). Cafwyd 211 o salmau ychwanegol yn y gyfrol hon, a deallwn wrth ragair Taliesin ap Iolo Morganwg, fod ei dad wedi canu i gyd dros dair mil ohonynt, a chyfansoddi tua 300 o erddiganau cyfaddas. Er i'r rhain gael eu rhifo megis y salmau o'r dechrau, eto gwelwn mai emynau ydynt mwyach.

Yng nghyfnod eu cyfansoddi gan Edward Williams, fe gyfnewidiwyd Ewrop gan y Chwildro Ffrengig. Datganwyd am freiniau dyn, ond atebodd Iawnffyddiaeth, nad oedd ganddo fraint. A gawn ni dybio fod Iolo'n uniongredwr i'r graddau ei fod yn gefnwr ar gyfundrefnau tymhorol? Gyda'i gywydd i'r Mochyn Mawr, ar ddiwedd ei salmau cyntaf, dysgodd na ellir derbyn unrhyw ran o sistem ddrwg. Gwelwn hefyd yn ei gywydd i Heddwch (rhan o'r hwn a ddatganwyd yng Ngorsedd y Beirdd ar Fryn Dinorwig yn 1799) ac a gawn ar ddiwedd ei ail gyfrol, dueddiadau at anarchiaeth, a chredu ym Mhenarglwyddiaeth Duw. Dylwn grybwyll mai Iolo Morganwg ei hun a ddechreuodd (neu a ail gychwynodd fel y maentumiodd ef) yr Orsedd mewn cyfarfod ar Primrose Hill, Llundain yn 1793. A siomwyd ef wedyn, fel y bardd Wordsworth, yn yr "oes newydd" ac fel llawer heddiw hefyd, ynglŷn â'r Chwildro Marcsiaidd?

Ped awn am dro drwy gefn gwlad cylch Gellionnen yn y cyfnod hwn, pa beth a welwn? Nid oedd na ffatri nac eglwys na chapel ym Mhont-ar-Dawe, yn 1827, pan ddaeth yr ail gyhoeddiad o salmau cyntaf Iolo allan ychydig ar ôl ei farw. Buaswn yn dilyn y ffordd dros Gellionnen i'r Faerdref, heibio tŷ mawr y Parch. John James, lle cadwodd ei ysgol (ef a annogodd Iolo i ail gyhoeddi'r gyfrol gyntaf, neu ddwyn allan yr ail). Aem heibio Llangyfelach a Mynydd Bach (mam eglwys Gellionnen) i Abertawy, tref fwyaf Cymru yr amser hwnnw, lle'r oedd capel yr enwog Barch. Joseph Harris, Gomer a ddygodd allan yn 1796 ei *Bigion o Emynau*, ac yn 1821 ei gasgliad arall hefyd ar gyfer y Bedyddwyr. Ef oedd sylfaenydd *Seren Gomer*, ond nid efe oedd y cyntaf i gychwyn llenyddiaeth gyfnodol Cymru, oherwydd rhagflaenodd Josiah Rees ef gyda'r pythefnosolyn *Trysorfa Gwybodaeth neu Eurgrawn Cymreig* yn 1770. Crybwyllwn y Gomer hwn (nid Gomer Lewis a ddaeth ar ei ôl) am fod ei waith yn nodweddol o symudiadau'r cyfnod. Cymhellodd gynulleidfaoedd i ddefnyddio'r enwog *Selection of Tunes* gan y Dr. Rippon (gweinidog Bedyddwyr yn Llundain). Ei fab ef oedd John Ryland Harris, Ieuan Ddu o Lan Tawy (gwelwn ddylanwad yr Orsedd yn y ffasiwn o ffug-enwau) a gyhoeddodd y llawlyfr enwog *Grisiau Cerdd Arwest* (*sef Cyfansoddiadau eglur a Hyrwydd at Ddysgu Peroriaeth yng nghyda gwersi i Ddechreuwyr*) 1823. Nid dyma'r llyfr

elfennau cerddorol Cymraeg cyntaf ond yn sicr yr un gorau a mwyaf defnyddiol a ddaeth eto.

Dyma'r cyfnod pan droes y codwr canu yn arweinydd y gân. Am yr hanner cyntaf o'r ganrif fe gafwyd cyfarwyddiadau ar ddarllen cerddoriaeth ar ddechrau llyfrau emynau.

Dysgwn lawer oddi wrth y casgliadau yma. Gwelir na ddodwyd enwau'r awduron wrth y tonau a'r emynau megis y gwneir yn ddiweddar. Canlyniad yr hwb a roes y Gymanfa Ganu a'r Solffa i gyfansoddi yw hyn oll.

Ond awn yn ôl i'r byd Undodaidd am funud. Yn 1846 ffurfiwyd *Cymdeithas Undodaidd Gwent a Morgannwg* ymhlith aelodau o Aberdâr, Merthyr a Phenybont ac fe ail ymunodd hon â Chymdeithas 1802 yn 1862. Yn 1858 ymddangosodd *Salmau'r Eglwys yn yr Anialwch* yn ddwy gyfrol gyda'i gilydd. Cawn y mesurau wrth yr emynau ac fe fuasai dewisiad teg o donau ar eu cyfer erbyn hyn.

Ffurfiwyd y *South Wales Unitarian Association* yn 1891 ac un o'r llyfrau tonau y rhoir bri mawr arno yng nghaniadaeth y Gymdeithas hon yw'r *Bristol Tune Book* (1863).

Clown y llith am y tro drwy gofnodi un o'r salmau allan o ail gyfrol Iolo, sef Salm clxxv ynghyd â'r don y lluniwyd yr emyn ar ei chyfer yn ôl pob tebyg. Yr oedd hon yn hen alaw adnabyddus iawn a bu'n amlwg fel un a dorrodd ar draws dull y salm-dôn oherwydd y mae'n rhoi sain ar gyfer pob sillaf. Fe'i cafwyd gyntaf oll yn y casgliad enwog o donau *Lyra Davidica* (Telyn Dafydd). Rhown hi yma fel ei ceir gyntaf yn 1708.

THE RESURRECTION.

| | | |

Priodasau.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 7fed yng Nghapel Undodaidd Merthyr unwyd mewn priodas THELMA MORGAN, merch Mr. a Mrs. R. Morgan, Trefechan a MEIRION DAVIES, mab Mr. a Mrs. D. J. Davies, Halford St., Cefn Coed. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 14 unwyd mewn glân briodas yng Nghapel y Graig, Llandysul, MAIR WILLIAMS, merch David a'r diweddar Mrs. Williams, Rhiwlug, Tregroes ag INVER DAVIES, mab David a'r diweddar Mrs. Davies, Gwardafolog, Talgarreg. Gweinyddwyd gan y Parch. J. Marles Thomas ym mhresenoldeb Cofrestrydd y Capel, Mr. J. O. James.

Marwgofion

Ar y 7fed o Fehefin, yn Ysbyty Aberystwyth, JOHN EVANS, Wilkes Head Bungalow, Llandysul, yn 79 oed. Mab ydoedd i Thomas a Mali, Porthyrhyd, dyffryn Cletwr Fawr. Treuliodd flynyddoedd ei lencyndod yn ardal Pontshaen ac am flynyddoedd yn was ar fferm Nantremenyn. Oddi yno ymbriodododd â Frances, merch Gwarcwm, ac yn union ymfudodd i bentref Llandysul, yn gyntaf i'r "Half Moon" ac yna i'r "Wilkes Head". Rhyfedd fel yr erys yr hen enw ar lafar gwlad. Er iddo ymadael ers rhai blynyddoedd bellach â'r gwesty enwog hwnnw, a symud o'r Heol Fawr i dawelwch ei fwthyn ar y bryn, fel John Evans Wilkes Head yr adwaenid ef bob amser, ac ar ryw "Heol Fawr" y parhaodd ei ddiddordeb hyd y diwedd. Ie, nid dyn yr "Heol gul" a fynnai fyw ei fywyd iddo'i hun, ond gŵr a gerddodd hyd heolydd gwasanaeth, gan droedio'r ffordd fawr a gadael ei lafur ar ei ôl dan Goron. Trwy ei fywyd rhoddodd wasanaeth cyson a didwrw i bob mudiad da. Am y cyfnod maith o bymtheg mlynedd ar hugain bu yn aelod ffyddlon a gweithgar ar Gyngor Dosbarth Cylch y Glannau Teifi. Trwy ei ymdrechion diflino erys gwelliannau lawer yn ardal Llandysul er cof amdano. Yng nghyfnod y Gwarcheidwaid estynnodd lawer cymwynas Gristnogol i dlodion y cylch. Fel y dywed un a'i hadnabu yn dda, "Unwaith yr argyhoeddid ef o deilyngdod unrhyw gais nid oedd un gallu a'i rhwystrai i fynnu cymorth". Gŵr a fu'n dŵr i'r gwan a bendith i Gymdeithas ydoedd. Cerddodd yr Heol Fawr fel un yn cerdded yr Heol Uniawn. Felly hefyd ar yr Heol Sanctaidd. Yr oedd pen pob heol iddo ef yn y Cysegr. Ni bu neb ffyddlonach i'r achos yn y Graig—a'i le heddiw yn wag. Erys heddiw yn y Capel a'r ardal hiraeth mawr ar ei ôl. Claddwyd ei weddillion y dydd Mercher dilynol ym mynwent y Llwyn a'r gweinidogion dilynol yn gwasanaethu : y Parchn. J. Marles Thomas, Richard Morris (B.), S. E. Bowen, D. Jacob Davies, David Rhydderch (A.) a T. R. Evans, Ficer Llandysul a Mrs. Evans, Gwarcwm wrth yr Organ. Gedy ar ôl mewn hiraeth ddwy ferch ac un mab, ynghyd â llawer o berthnasau.

Ar y 13ed o Fehefin, JOHN THOMAS, Tynffordd yn 89 oed. Hannai o hen deulu brodorol plwyf Llanwnen—mab i Thomas a Gwenno, Gwarcwm. Gwerinwr syml ydoedd, yn caru pethau Cymraeg. Yn ei ffordd ei hun rhoddodd fynegiant i'r gorau yn y bywyd gwledig. Ni chafodd lawer o ddyddiau ysgol—"dim ond dau aeaf yn ysgol John Dafis, Cwrtnewydd", ond dysgodd roddi ei bersonoliaeth yn ei waith fel Amaethwr a Saer Coed, a chelfyddydwr y celfau cain. Ymbriodod â Dinah Ffynnonlas, yr hon a'i blaenodd bymtheg mlynedd yn ôl. Wedi ei marw hi treuliodd ei fywyd yn feudwyol ar yr hen aelwyd, ond a drws ei dŷ yn agored bob amser i gâr a chyfaill i ymddiddan am yr hen amser gynt. Ym mlynyddoedd olaf ei fywyd gofalwyd yn dyner amdano gan gymdogion a pherthnasau. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Capel y Groes y dydd Mawrth dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas (nai iddo) a J. Islan Jones a Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol wrth yr Organ. O'r hen deulu, nid oes yn fyw mwyach ond ei frawd ieuengaf, David Thomas, Llansawel. Cydymdeimlir ag ef a'r perthnasau yn eu hiraeth o golli hen gyfaill mor gu.

Ar y 6ed o Orffennaf, RACHEL DAVIES, Sychdy, Pantydefaid yn 68 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Edward a Nansi Jones, Ceginan, Tregroes, ac felly dygwyd hi i fyny ar aelwyd a chwaraeodd ran bwysig gyda'r achos Undodaidd yn y cylch. Wedi ymbriodi bu fyw am rai blynyddoedd yn yr hen gartref cyn symud i'r Sychdy. Benyw o gymeriad braf ydoedd hi. Nid yn aml y gwelid ei bath. Yr oedd yn nodedig am ei charedigrwydd a'i haelioni. O ysbryd hynaws, ac o galon dda, aeth oddiamgylch drwy ei hoes gan wneuthur daioni. Ni bu neb ffyddlonach i'w chapel ; ni charodd neb yr achos yn fwy ; ni cherddodd neb yn gywirach ei ffordd, a chynulleidfa Pantydefaid heddiw mewn hiraeth dwys o'i cholli. Hi ydoedd trysoryddes Urdd y Benywod yn y lle, ac ni ai dim ymlaen heb iddi hi roddi yn hael o'i gofal a'i gwasanaeth. Clafychodd am rai misoedd, ond yn ddirwgnach. Daeth y diwedd yn dawel fel ei byw. Dydd ei marw taenwyd cwmwl du dros ysbryd y fro. Daearwyd ei gweddillion y dydd Iau dilynol ym mynwent Pantydefaid a'r gwasanaeth yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ, yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. Marles Thomas a D. A. Williams (A.), Carmel a Miss Nansi Jones, Tregroes wrth yr Organ. Gedy ar ôl mewn hiraeth David Davies ei phriod, Nansi ei hunig ferch a Nannie ei hwyres fach, ynghyd â brawd a chwaer. "Dy eiddot ti ydoedd, a thi a'i rhoddaist inni, a hi a gadwodd dy air, a thi a'i gelwaist atat dy hun".

Ar yr 11eg o Fehefin bu farw JAMES PHILLIPS, Sant Clêr. Yr oedd Phillipaiaid Sant Clêr a'r cylch yn dra amlwg yn yr enwad genhedlaeth neu fwy yn ôl.

Ar ddydd Llun, yr 21ain o Orffennaf bu farw Miss ALICE JAMES, Rose Cottage, Aberdâr mewn ysbyty, yn 80 oed. Cafodd gystudd hir a chymeryd iau esmwyth oedd croesi'r ffin iddi. Yr oedd hi a'i chwaer Mary wedi treulio oes hir gyda'i gilydd a phan fu farw honno ychydig flynyddoedd yn ôl fe

deimlodd yr un a adawyd y golled yn drwm iawn. Un o atgofion hyfrytaf eu gweinidog ar hyd ei oes fydd y gyfeillach â'r ddwy chwaer yn ystod ei ymweliadau. Yr oedd siwrnai i Rose Cottage megis taith i ryw ynys fechan allan o'r byd modern. Daethent o ffermdy helaeth i fyw yn un o 'dai rhestr' y dref ond unwaith yr elech i mewn drwy'r drws yr oeddych yn ôl yn yr hen dŷ fferm unwaith eto. Yr oedd y dodrefn a'r llestri'n aros ac er nad oedd amser godro'n dod bellach yr oeddych yn teimlo bod trefn y dydd a rhaglen gwaith amaethdy yn llanw'r lle. Dod i *aros* yn y dref a wnaethant yn unig oblegid yr oeddynt yn dal i *fyw* yn yr hen gartref. Ni fydd angen i ni byth holi pa fath le oedd yng nghwm Aberdar cyn dyfod y pla glo i rwygo'r hen gymdogaeth; yr oedd y ddwy chwaer yn bont berffaith dros y blynyddoedd i'r gorffennol pell. Ynddynt cedwid yr hen arferion a'r iaith a gwyddor gwlad yn loyw hyd y diwedd. Glynent yn gadarn wrth falchter mewn tras a theulu a gallent olrhain y wythïen i'r nawfed ach. Dyna beth y mae bywyd tref a chwalfa diwydiant yn prysur ddwyn oddi arnom. Ni chyfrif closrwydd teulu nac undod hil bellach ac fe'n gwasgerir, er ein dirfawr golled, yn bobl ddiwreiddiau i'r pedwar gwynt. Nid ffrwyth oes yw cymeriad ond ffrwyth cenedlaethau o brofiad yn cael ei drosglwyddo o law i law. Nid ar antur y canodd Gwilym Marles "Dduw ein tadau, Dduw ein mamau, Bydd i ninnau plant yn blaid", a'r tadau a'r mamau yw'r bont gyfrin sy'n clymu deufyd dyn. Wrth gladdu'r chwaer annwyl yma yr oeddym yn claddu ystôr o draddodiad na welir mohono mwy. Mae dant y gwyfyn yng 'nghwilt Cwmbach,' mae dant y llew ar y 'ton' o flaen y tŷ a dant yr anghenfil barus yn blysio olion olaf diwylliant bro deg ym Morgannwg. Ai difater gennym? Bu'r angladd ar y 24ain o Orffennaf yng Nghladdfa Aberdâr a'i gweinidog yn gwasanaethu. Gedy ddau frawd ac eraill o'r hen deulu mewn galar dwys.

CYWIRO GWALLAU RHIFYN GORFFENNAF.—Camenwir David Davies, Ty'nfron yn Daniel mewn un lle yn ei farwgof. Eto dylid darllen, "gedy ar ôl mewn hiraeth . . . ynghyd â llu o *neiaint a nithod*" yn lle "*wyrion ac wyresau*". Gadawyd enw'r Parch. D. A. Williams, Carmel allan hefyd a blin gennym am y gwallau hyn.

Newyddion yr Enwad

ANRHYDEDDU HANESYDD O ABERDÂR.—Derbyniodd Mr. W. W. Price, Penlan y radd anrhydeddus o M.A. gan Brifysgol Cymru yn ddiweddar. Y mae Mr. Price yn un o wŷr yr Hen Dŷ Cwrdd ac fe gyfrannodd yn helaeth i lyfr hanes y lle a ymddangosodd flwyddyn yn ôl. Yr oedd llawer ohonom yn credu fod yr anrhydedd yn ddyledus ers tro ac fe fynegwyd hynny yn ein rhifyn arbennig ar Thomas Stephens dair blynedd yn ôl. Ni allwn wella ar yr hyn a ddywedwyd y pryd hwnnw, "os bydd eisiau gwybod rhywbeth ar rywun am rywbeth yn Aberdâr, rhaid mynd am dro i weld Mr. Price. . . .

Ni chredaf bod chwilotwr hafal iddo yng Nghymru a champ fawr ei waith yw ei fod yn dwt ac yn drefnus wrth bopeth. Byddai'n rhatach gwaith i Brifysgol Cymru anrhydeddu gwŷr fel ef na rhoi graddau Dr. ac M.A. i dywysoges a gwŷr cyfoethog na ŵyr fwy am Gymru nag a ŵyr pysgodyn am ben yr Wyddfa". Wrth ei gyflwyno ar ddydd y seremoni fe ddywedodd yr Athro David Williams, Aberystwyth mai fel hanesydd Cwm Cynon yr adwaenid Mr. Price yn bennaf. Ychwanegodd iddo gyhoeddi erthyglau niferus a marc yr hanesydd trwyadl ar bob un ohonynt. Yn ei dŷ y mae ganddo stôr o



Mr. W. W. PRICE, M.A.

tua hanner can mil o gardiau a phob un yn rhoi hanes rhyw berson neu gilydd. Y mae bron yn amhosibl i chwi ofyn unrhyw gwestiwn i Mr. Price heb gael ateb llawn neu ffordd i chwilio'r ateb llawn. Casglodd restr o tua 6,000 o enwau barddol Cymru hefyd. Y mae'n 78 oed ond fe ddeil i weithio bob dydd o'r bore bach hyd oriau mân y bore. Trist yw cofio iddo golli ei gymar ffyddlon beth amser yn ôl, gwraig a welodd werth ei waith ond na chafodd fyw i weld y wobr. Eithr bendithiwyd ef â merch sy'n cynnal y tŷ yn nhraddodiad ei mam ynghyd a rhoi gwasanaeth cymdeithasol i'r gwan yn nhraddodiad ei thad.

PANTYDEFAID.—Sul, 6ed o Orffennaf etholwyd deg o ddiaconiaid newydd : Mrs. Davies, Faerdre ; Meistri D. G. E. Davies, Faerdre ; D. O Evans, Pontbren ; Evan Evans, Felin ; Joseph Heap, Llwynon ; Elgan Jones,

Garthowen ; Bryn Jones, Tregroes ; Dan Jones, Rhydowenfach ; David Walters, Afallon a Miss Hannah Walters, Winllan.

GRAIG, LLANDYSUL.—Sul, 13ed o Orffennaf cynhaliwyd gwasanaeth o ymgysegru yr Ysgol Sul, a chyflwyno tystysgrifau yr arholiad blynyddol. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd rhodd o Feibl i Mrs. Mair Davies, Rhiwlug ar achlysur ei phriodas a'i hymadawiad i Gwardafolog, Talgarreg. Cynorthwywyd gyda'r gwasanaeth gan Mr. Jenkin Morgan, Afonog a Miss A. M. Evans, Dedwyddfa a chymerwyd rhan gan adrannau yr Ysgol Sul. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mr. Edward Davies (Arolygwr) a'r Gweinidog.

CYFRANIADAU AT YR YMOFYNNYDD.—Diolch i'r Parch. James G. Davies, Belfast (10s.) a Mrs. E. Marcham, Woodlands Park, Berks. (£1) am eu cyfraniadau. Gwelwch fod ein misolyn yn cerdded ymhell a bydd pob help yn rhoi pâr o esgidiau newydd iddo.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL

CYNHELIR Y RHAIN YNG

Nghapel-y-Bryn, Cwrtnewydd

DYDDIAU MAWRTH A MERCHER, AWST 12 A 13

Nos Fawrth am 6.30 o'r gloch—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Dydd Mercher am 10.30 a.m.—Pwyllgor y Gymdeithas.

Prynhawn Mercher am 2—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Nos Fercher am 6 o'r gloch—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.